

Adroddiad ar

Ysgol Y Faenol

Penrhosgarnedd

Bangor

Gwynedd

LL57 2NN

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Y Faenol

Enw'r darparwr	Ysgol Y Faenol
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	225
Disgyblion o oedran ysgol statudol	171
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	30
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%)	11.4%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%)	11.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	14.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	15.2%
Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon	

Adroddiad ar Ysgol Y Faenol
Mai 2026

Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2025
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	
Dyddiad dechrau'r arolygiad	05/05/2026

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blyneddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

Crynodeb

Mae arweinwyr yr ysgol yn meithrin gweledigaeth gytûn o gymuned ddysgu Gymreig, hapus a ofalgar lle mae pob disgybl yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi i ffynnu. Mae'r pennaeth, y dirprwy bennaeth a'r staff yn dîm effeithiol ac angerddol sy'n cynnig profiadau cyfoethog mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae'r berthynas agos rhwng staff, disgyblion a rhieni, ynghyd â chysylltiadau cryf â chymuned Penrhosgarnedd, yn elfennau allweddol o lwyddiant yr ysgol. Mae'r ysgol yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol y disgyblion ac yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r defnydd naturiol o'r iaith Gymraeg gan staff a disgyblion. O oed cynnar, mae disgyblion yn dechrau siarad yn hyderus, ac erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn defnyddio iaith aeddfed a chywir. Mae'r cwricwlwm yn eang ac mae'r profiadau dysgu yn cynnig lefel bwrpasol o her a chefnogaeth. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd bwriadus i gyfrannu eu syniadau i adeiladu cwricwlwm sy'n ennyn eu diddordeb a hybu eu hymroddiad yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae athrawon yn sicrhau bod profiadau'n datblygu medrau disgyblion, gan gynnwys medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, yn gyson dros amser.

Mae gan arweinwyr brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant sydd wedi'u sefydlu'n gadarn ac sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella lles disgyblion a datblygiad eu medrau dros amser. Mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft drwy gynyddu defnydd y Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu, ac wrth feithrin ethos Cymraeg a Chymreig cadarn. Er bod capasiti arweinyddol yr ysgol wedi datblygu'n addas, nid yw rolau arwain ehangach wedi datblygu'n llawn hyd yma. Nid yw'r cyfrifoldebau arwain wedi eu dyrannu'n ddigon clir ac nid yw arweinwyr ar draws bob lefel yn cyfrannu'n llawn at hybu gwelliannau cynaliadwy yn yr addysgu, profiadau dysgu a deilliannau disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn hynod ymroddgar ac yn eiriolwyr cefnogol dros yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r sefyllfa gyllidol ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau goruchwyllo ariannol yn ofalus a chyfrifol. Yn ddiweddar, mae'r corff wedi dechrau ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â gweithgareddau gwerthuso ansawdd sy'n datblygu eu gallu i herio arweinwyr ar agweddau ar addysgu a dysgu. Serch hynny, nid yw'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n ddigon systematig at brosesau hunanwerthuso'r ysgol ar hyn o bryd.

Mae arweinwyr yn hybu darpariaeth eang, greadigol a chytbwys sy'n cefnogi lles, medrau a datblygiad emosiynol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r cynorthwyyr addysgu yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu rhaglenni cefnogi llwyddiannus, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY).

Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

- A1 Cryfhau rôl tîm arweinyddiaeth ehangach yr ysgol, gan gynnwys y corff llywodraethol, i gyfrannu'n strategol at brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif werthusiad

Mae'r awyrgylch gynnes, groesawgar a Chymreig yn Ysgol Y Faenol yn sail i'w chymuned ddysgu hapus a chynhwysol. Mae'r pennaeth yn fodel rôl arbennig sy'n ennyn parch pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel ohono'i hun, y staff a'r disgyblion. Mae'r pennaeth yn cydweithio'n ddiwyd â'r staff, y llywodraethwyr a'r gymuned ehangach i osod cyfeiriad strategol cadarn ac i ddarparu addysg, gofal a chefnogaeth gyson i'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu at sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae arweinwyr yn angerddol bod yr arwyddair, sef 'Tyfu, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd', wrth wraidd holl waith yr ysgol ac mae pwyslais amlwg ar ddefnyddio a dathlu'r Gymraeg.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio profiadau dysgu cyfoethog sy'n datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r amgylcheddau dysgu ysgogol yn dathlu gwaith disgyblion ac yn darparu adnoddau hygyrch sy'n cefnogi eu datblygiad.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn gwbl naturiol wrth ddechrau yn yr ysgol neu maent o aelwydydd lle na siaredir Cymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Gyda chefnogaeth llwyddiannus y staff sy'n fodolau iaith effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus a byrlymus. Mae agweddau cadarnhaol at y Gymraeg yn amlwg ymysg disgyblion a staff ar draws yr ysgol.

Ciplun: Datblygu'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu gallu disgyblion i siarad Cymraeg yn naturiol yn gryfder. Mae ethos cryf o Gymreictod yn nodwedd amlwg o'r cwricwlwm ac yn plethu'n effeithiol drwy fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ffocws ysgol gyfan ar ddatblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion ac mae staff yn gweithredu fel modelau rôl iaith cryf. Mae'r cyfleoedd dyddiol i ddatblygu patrymau iaith a chystrawennau cywir yn meithrin siaradwyr Cymraeg rhugl, safonol o oed cynnar. Mae'r cynnydd yn glir a cheir dilyniant cadarn ym medrau ieithyddol y disgyblion, gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio iaith aeddfed a chyfoethog erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o destunau, yn rhagfynegi'n gywir ac yn mynegi barn bwrpasol am gynnwys testunau. Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n aeddfed ar draws ystod o ffurfiau creadigol gyda rhuglder, cywirdeb a manylder cynyddol sy'n ystyried diben a chynulleidfa yn dda.

Mae datblygiad medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryf. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau mathemateg heriol ac ystyrlon i ddisgyblion sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o ystod o gysyniadau yn fedrus. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws ystod dda o gyd-destunau pwrpasol. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n hynod effeithiol, o godio cynnar i ddefnyddio dyfeisiau'n hyderus i gwblhau prosiectau diddorol.

Mae staff yn datblygu medrau corfforol a chreadigol disgyblion yn llwyddiannus drwy weithgareddau celf, cerddoriaeth a chwaraeon. Trwy gyfrwng y gweithgareddau hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin balchder at eu hardal leol a Chymru yn ogystal â dealltwriaeth o ddiwylliannau amrywiol y byd, gan eu paratoi i fod yn ddinasyddion deallus ac uchelgeisiol. Mae disgyblion yn ymateb yn effeithiol i adborth athrawon sy'n

cefnogi'r disgyblion i wybod beth maent wedi ei wneud yn dda ac i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae staff yn gweithio fel tîm effeithiol ac angerddol ac yn creu amgylchedd gofalgarg, sy'n treiddio drwy bob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae hyn yn hybu perthnasoedd gweithio cryf rhwng staff a disgyblion. Mae'r cynorthwyrwyr addysgu yn rhan annatod o dîm yr ysgol, gan gyfrannu'n werthfawr at ddysgu'r disgyblion, ac at hyrwyddo eu lles emosiynol drwy raglenni cefnogi pwrpasol ac ystyrlon. Trwy hyn oll, mae'r disgyblion yn meithrin chwilfrydedd a pharch yn fedrus sy'n eu cefnogi i ymfalchïo yn natur amrywiol eu cymuned.

Trwy weithgareddau, gwasanaethau a dathliadau, mae disgyblion yn dathlu treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol yr ysgol ac yn meithrin balchder yn eu hunaniaeth Gymreig ac amlddiwylliannol yn hynod lwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth eang a chytbwys yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a chymdeithasol gadarn sy'n sail i'r gymuned gynhwysol.

Mae staff yn adnabod y gymuned yn dda ac yn gweithio'n ymroddgar i sicrhau bod pob teulu yn cael cymorth priodol. Mae gan staff adnabyddiaeth dda iawn o anghenion disgyblion unigol. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i gefnogi disgyblion sy'n dod o aelwydydd incwm isel a'r rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys disgyblion yn y dosbarth anghenion cymedrol. Mae staff yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion o'u mannau cychwyn yn hynod drylwyr ac yn darparu ystod gynhwysfawr o raglenni cefnogi pwrpasol sy'n ymateb i ofynion disgyblion yn effeithiol iawn.

Ciplun: Cefnogi lles a medrau disgyblion ag ADY a'r rhai hynny sy'n dysgu Saesneg a Chymraeg fel iaith ychwanegol (SIY).

Mae trafodaethau proffesiynol rheolaidd ymysg staff yn sicrhau eu bod yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o anghenion pob disgybl. Maent yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth gynhwysfawr i gynllunio profiadau dysgu sydd wedi eu teilwra'n ofalus i anghenion penodol. Mae timau o gynorthwyrwyr medrus yn arwain rhaglenni cefnogi effeithiol sy'n hyrwyddo lles a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n dysgu SIY, yn hynod lwyddiannus. Mae hyrwyddo lles disgyblion yn flaenoriaeth amlwg. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth drochi ieithyddol ar gyfer y Gymraeg yn yr ysgol yn cryfhau medrau'r disgyblion hynny sy'n dysgu SIY tra'n hybu eu hyder a'u gallu i integreiddio'n llwyddiannus i fywyd yr ysgol a'i Chymreictod. Mae partneriaethau cryf â rhieni a sefydliadau allanol yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae bron bob disgybl sy'n derbyn cymorth yn gwneud cynnydd cryf iawn.

Mae arweinwyr a staff yr ysgol yn dangos gwerthoedd cadarn ac ymddygiad proffesiynol o safon uchel, gan greu amgylchedd diogel, cynnes a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion yn cael eu cyfathrebu'n glir ac adeiladol, gan feithrin cymuned sy'n seiliedig ar barch, empathi a thegwch. O ganlyniad, mae ymddygiad ac agweddau bron pob disgybl mewn gwersi, ac o amgylch yr ysgol, yn arbennig o dda. Yn ogystal, mae balchder y disgyblion at eu hysgol yn amlwg, gydag ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu mawr. Maent yn dangos parch, cwртеisi a charedigrwydd at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr.

Mae gan arweinwyr brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant clir sy'n cael effaith briodol ar les a chynnydd ym medrau'r disgyblion dros amser. Mae arweinwyr yn ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel wrth ddarparu mwy o Gymraeg fel rhan o'r addysgu a dysgu, ac ar sefydlu ethos Cymraeg a Chymreig. Er bod capasiti arweinyddol yr ysgol wedi datblygu'n addas, nid yw rolau arwain ehangach wedi datblygu'n llawn hyd yma. Nid yw'r cyfrifoldebau arwain wedi eu dyrannu'n ddigon clir ac nid yw arweinwyr ar draws bob lefel yn cyfrannu'n llawn at hybu gwelliannau cynaliadwy yn yr addysgu, profiadau dysgu a deilliannau disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gwbl ymroddedig ac yn eiriolwyr cryf dros yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o'r sefyllfa gyllidol ac maent yn ei rheoli'n ofalus. Yn ddiweddar, maent wedi ymgymryd ag ychydig o weithgareddau gwerthuso ansawdd sy'n cychwyn datblygu eu gallu i herio arweinwyr ar agweddau o ddysgu ac addysgu. Er hyn, nid yw'r rôl llywodraethwyr ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol wedi datblygu'n llawn hyd yma.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. '*y rhan fwyaf o ddisgyblion...*' neu '*ychydig iawn o ddisgyblion...*'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2026